**EPT-09-01 (min)**

# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 23 Mai 2001 |
| Amser: | 2:00 pm hyd 5:00 pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Yn bresennol:**

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Rosemary Butler (dros Karen Sinclair) | Gorllewin Casnewydd |
| David Davies | Mynwy |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Sue Essex, Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Keith Bush | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Martin Evans (eitem 2) | Pennaeth y Grwp Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Denzil Jones (eitemau 2 a 3) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| Bob Macey (eitem 2) | Pennaeth Is-adran Diogelu'r Amgylchedd |

| | |
|---|---|
| Robin Shaw (eitem 3) | Cyfarwyddwr Trafnidiaeth |

***Yn bresennol:***

| | |
|---|---|
| Mike Simkins (eitem 3) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (yn cynrychioli CLlLC) |
| Justin Cooper (eitem 3) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (yn cynrychioli CLlLC) |
| Victoria Winckler (eitem 3) | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) |
| Denys Morgan (eitem 3) | Ymgynghorydd Arbenigol |

***Ysgrifenyddiaeth:***

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

0.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau, swyddogion ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod, a hysbysodd y pwyllgor:

- y câi papur y Gweinidog ar yr opsiynau o ran etholiadau uniongyrchol i'r Parciau Cenedlaethol ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol;

- iddo gynnal cyfarfod adeiladol iawn y diwrnod cynt gydag Awdurdod Iechyd Bro Taf ac y cytunwyd ar amserlen i'r Awdurdod gyflwyno tystiolaeth i ymchwiliad Nantygwyddon. Oherwydd natur yr honiadau a wnaethpwyd yn erbyn yr Awdurdod Iechyd gan Dr Van Steenis, cytunodd y pwyllgor i gyhoeddi ei dystiolaeth ef a thystiolaeth yr Awdurdod Iechyd gyda'i gilydd.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Karen Sinclair, yr oedd Rosemary Butler yn dirprwyo drosti, a Helen Mary Jones.

1.2 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5 a gwnaethpwyd hynny fel a ganlyn:

- Mick Bates – partner mewn busnes ffermio;
- Geraint Davies – aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a fferyllydd.

**Eitem 2: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** – EPT-09-01 (p 1)

2.1 Cyflwynodd Sue Essex ei phapur, ac achubodd ar y cyfle i hysbysu'r aelodau o'r ychwanegiadau canlynol:

- Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth 2000 (Dechreuad) (Rhif 1) (Cymru) 2001 – yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Busnes, penderfynodd y Dirprwy Lywydd y câi'r gorchymyn drafft ei gyfeirio i'r pwyllgor gyda'r gorchwyl o adrodd yn ôl ymhen 4 wythnos, cyn mynd i'r Cyfarfod Llawn ar 19 Gorffennaf. Gan fod y pwyllgor yn gyfarwydd â darpariaethau'r Ddeddf, cytunwyd y câi'r gorchymyn drafft ei gyflwyno fel atodiad at adroddiad y Gweinidog yn y cyfarfod nesaf;

- Gweithredu Arloesol Ewropeaidd – yr oedd ceisiadau'n cael eu cwblhau'n derfynol ac yr oedd pedwar prosiect wedi mynd ymlaen;

- Clwy'r traed a'r genau – cyfyngedig oedd y mynediad i gefn gwlad o hyd ac yr oedd y Gweinidog, gan ddilyn cyngor y Prif Swyddog Milfeddygol, yn annog awdurdodau lleol i agor mwy o ardaloedd i'r cyhoedd.

2.2 Ymdriniwyd â'r pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Uwch-gynhadledd y Ddaear 2000 – cytunodd y Gweinidog i drafod cynrychiolaeth Cymru yn yr uwch-gynhadledd gyda Phrif Weinidog Cymru fel mater o frys;

- Cyfyngiadau ar beledi plwm – mynegwyd peth pryder ynglyn ag effaith y cyfyngiadau ar swyddi. Eglurodd y Gweinidog fod nifer o fuddianwyr wedi bod â llais yn y gwaith o ddrafftio'r rheoliadau, sy'n cynnig cyfaddawd rhwng cyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol a lleihau'r effaith ar y diwydiant saethu;

- Adroddiad drafft ar ynni adnewyddadwy – byddai'r Gweinidog yn siarad â'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ynglyn ag amserlen cyhoeddi'r adroddiad.

- Cwrdd â Chadeiryddion Pwyllgorau Atal Llifogydd – rhoddodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am ei chyfarfod diweddar a phwysleisiodd yr aelodau yr angen i'r pwyllgorau, sydd wedi eu had-drefnu, fanteisio ar arbenigedd lleol;

- Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth 2000 (Dechreuad) (Rhif 1) (Cymru) 2001 – byddai hwn yn rhoi pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Awdurdodau Lleol o dan wahanol adrannau o Ddeddf Trafnidiaeth 2000, gan gynnwys pwer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud rheoliadau pellach mewn perthynas â thaliadau parcio gweithle. Byddai'r rheoliadau pellach hyn, ar ôl eu gwneud, yn awdurdodi awdurdodau lleol i gyflwyno cynlluniau codi tâl.

- Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol – yr oedd y fframwaith yn cael ei baratoi, a byddai'n integreiddio cynllunio defnydd tir, trafnidiaeth a strategaethau eraill ar sail Cymru gyfan;

- Iawnderau Dynol a chynllunio – golygai dyfarniad Ty'r Arglwyddi nad oedd gweithdrefnau penderfyniadau cynllunio y Cynulliad Cenedlaethol yn groes i Erthygl 6 o ECHR. Fodd bynnag, ni fwriadai'r Gweinidog eistedd ar Bwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio a oedd yn ystyried ceisiadau a alwyd i mewn ganddi hi;

- Y Gronfa Datblygu Economaidd – byddai'r Gweinidog yn darparu manylion pellach i'r aelodau am y panelau asesu a'r meini prawf dethol ar gyfer prosiectau mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

2.3 Nododd y pwyllgor y newidiadau i strwythur Grwpiau Is-wariant y Gyfarwyddiaeth Trafnidiaeth a'i Llinellau Gwariant Cyllideb. I'r dyfodol, byddai adroddiadau gwariant yn nodi ymhle yr oedd y ddarpariaeth wedi'i haddasu, fel y gellid mesur tueddiadau.

**Eitem 3: Adolygiad Polisi: Trafodaeth (strwythurau trefniadol sy'n bodoli)** - EPT-09-01 (p 2) ac EPT-09-01 (p 3)

1. Gwahoddodd y Cadeirydd Denys Morgan i amlinellu prif gasgliadau ei adroddiad (EPT-09-01 (p 2) Atodiad A), a Mike Simkins, Justin Cooper a Victoria Winckler, yn cynrychioli Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), i nodi awgrymiadau CLlLC ar gyfer cryfhau'r consortia trafnidiaeth rhanbarthol gwirfoddol sy'n bodoli eisoes (EPT-09-01 (p 3) a'r cyflwyniadau yn atodiad 1).

3.2 Gwahoddwyd yr aelodau i drafod yr argymhellion a nodwyd ym mharagraff 9 o bapur 2 i'r pwyllgor, a chanolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol:

- Consortia trafnidiaeth rhanbarthol – cydnabyddai’r awdurdodau lleol yr angen i weithio

gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau integredig, ac yr oedd y consortia trafnidiaeth rhanbarthol gwirfoddol yn bwrw ymlaen yn dda â'u gwaith, yn enwedig SWIFT. Serch hynny, teimlai'r aelodau fod angen sicrwydd ar y Cynulliad Cenedlaethol y gallai'r consortia gwirfoddol gyflawni'r hyn sy'n ofynnol i sefydlu gwelliannau sylweddol mewn trafnidiaeth gyhoeddus;

- Cryfhau'r consortia – trafodwyd gwahanol opsiynau. Awgrymodd CLlLC y dylid llunio "cyfamodau" rhwng awdurdodau lleol o fewn y consortia a'r Cynulliad Cenedlaethol, a chroesawai'r strategaethau trafnidiaeth gyhoeddus rhanbarthol a oedd wedi'u hawgrymu. Yr oedd nifer o faterion y dylid rhoi sylw iddynt, megis "cyfansoddiad" ac aelodaeth y consortia, a'u hatebolrwydd i'r Cynulliad Cenedlaethol;

- Strwythurau amgen – yr oedd CLlLC yn gryf o'r farn y gallai awdurdodau lleol, yn gweithio gyda'i gilydd, gyflenwi unrhyw wasanaethau arfaethedig y byddai disgwyl i unrhyw Awdurdod Trafnidiaeth Teithwyr arfaethedig eu darparu. Byddai'r pwyllgor yn ystyried opsiynau pellach yn y cyfarfod ar 13 Mehefin;

- Cyllido – yn wyneb llwyddiant y neilltuo ar gyllid cyfalaf (a rhywfaint o gymorth refeniw) ar gyfer prosiectau trafnidiaeth gyhoeddus, yr oedd y pwyllgor o'r farn bod yna rinwedd mewn pridiannu rhan o grant cymorth refeniw awdurdodau lleol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus. Croesawai CLlLC y cymorth ychwanegol hwn, ond nid oedd yn cytuno â phridiannu gwariant awdurdodau lleol. Byddai angen ystyried y goblygiadau o ran adnoddau ariannol a gallu awdurdodau lleol i sefydlu cyd-flaenoriaethau cyllido, tra'n cydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol a'u gofynion gwerth gorau fel awdurdodau unigol;

- Materion Trawsffiniol – teimlai'r aelodau fod cydweithrediad trawsffiniol yng Ngogledd a Dwyrain Cymru hefyd yn allweddol er mwyn cyflenwi gwasanaethau integredig. Yr oedd yna gyswllt da ar hyn o bryd ar lefel leol, er ei bod yn aml yn anodd cyllido prosiectau trawsffiniol.

3.3 Diolchodd y Cadeirydd i CLlLC am ei chyfraniad, a chytunodd y pwyllgor y byddai'r argymhellion yn llunio rhan o'r adroddiad ymgynghorol, yn amodol ar yr ychwanegiad isod:

- *bod y consortia i godi eu proffil ymysg teithwyr drwy ddatblygu eu "brand" eu hunain yn seiliedig ar wasanaethau o safon.*

**Eitem 4: Cofnodion cyfarfod 9 Mai 2001** – EPT-08-01(min)

4.1 Mabwysiadodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Mai.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

5.1 Byddai cyfarfod nesaf y pwyllgor am 2.00 pm ddydd Mercher 13 Mehefin yn Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mai 2001**

**Atodiad 1**

Cyflwyniad gan Mike Simkins ar ran CLlLC

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth**

**23 Mai 2001**

-

***Adolygiad Polisi o Drafnidiaeth Gyhoeddus***

1. Gwell Cymru

- system drafnidiaeth gynaliadwy, wedi'i chyd-drefnu'n well, yn gefn i gymunedau lleol ac yn gymorth i greu economi llewyrchus

2. Fframwaith Trafnidiaeth

- integreiddio'n well â'r amgylchedd a chynllunio defnydd tir

- gwell trafnidiaeth gyhoeddus

- gweithredu ar lefel leol a rhanbarthol

- mwy o feicio a cherdded

- rhaglen ffyrdd wedi'i thargedu ar lefel strategol a lleol

- cynnal a chadw digonol

3. Mae Trafnidiaeth Gyhoeddus yn gyfrannwr allweddol ond nid dyna'r unig elfen bwysig mewn Trafnidiaeth Integredig.

4. Mae gan Awdurdodau Lleol bwerau a dyletswyddau:

- lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol

- cynllunio cymunedol – Strategaeth Gymunedol

- cynllunio defnydd tir – Cynllun Datblygu Unedol

- awdurdod priffyrdd, traffig a thrafnidiaeth – Cynllun Trafnidiaeth Lleol

- awdurdod addysg – trafnidiaeth ysgol

- datblygu economaidd – adfywio cymunedau

5. Awdurdodau Lleol sydd yn y sefyllfa orau i wireddu system drafnidiaeth sydd wedi ei hintegreiddio'n wirioneddol.

6. Byddai gwahanu trafnidiaeth gyhoeddus oddi wrth bob elfen arall o drafnidiaeth integredig yn wiriondeb.

7. Mae Awdurdodau Lleol yn cydnabod y dimensiwn rhanbarthol a strategol ac yn gweithio gyda'i gilydd ar:

- ganllawiau cynllunio rhanbarthol

- strategaeth drafnidiaeth ranbarthol

- darparu trafnidiaeth gyhoeddus.

-

**Consortia Rhanbarthol - TAITH**

1. Fforwm Economaidd Gogledd Cymru

   - 6 Awdurdod Unedol

   - Awdurdod Datblygu Cymru

   - Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain

   - Cyngres yr Undebau Llafur

   - Bwrdd Croeso Cymru

   - ELWa

2. Grwp Trafnidiaeth - TAITH

   - system drafnidiaeth integredig a chynaliadwy i fodloni anghenion trafnidiaeth a chefnogi cymunedau lleol

   - rhoi sylw i faterion trafnidiaeth strategol

   - pwyslais ar drafnidiaeth gyhoeddus

3. Aelodaeth:

   - 6 Awdurdod Unedol – Aelodau a Swyddogion

   - Awdurdod Datblygu Cymru

   - Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain

   - Cyngres yr Undebau Llafur

   - FTA

   - Cyngor Sir Swydd Gaer – Grwp Cyswllt Swydd Gaer/Swydd Gaer/Swydd

Gaer/Sir y Fflint

4. Yn mynychu cyfarfodydd fel sy'n briodol:

    - Y Cynulliad Cenedlaethol – Gweinidogion a Swyddogion

    - Yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol

    - Railtrack

    - Cwmnïau bysiau a threnau

    - Pwyllgor Defnyddwyr y Rheilffyrdd

    - Cymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol

5. Yr hyn a gyflawnwyd

    - Strategaeth Trafnidiaeth Ranbarthol

    - Gwelliannau i seilwaith y rheilffyrdd – uwchraddio cyflymdra lein Arfordir Gogledd Cymru

    - Gwelliannau i'r gwasanaethau rheilffordd – ailgynnig y fasnachfraint

    - Gwybodaeth a marchnata

    - Cyd-drefnu

6. Rhanbarth Amrywiol

    - Partneriaethau lleol

    - Dimensiwn trawsffiniol

**<u>Consortia Rhanbarthol – Partneriaeth y Canolbarth</u>**

1. Fframwaith strategol i'r Canolbarth

    - 16 o sefydliadau yn cynrychioli'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

- 3 Awdurdod Unedol - Powys, Ceredigion, Gwynedd (Meirionydd)

2. Strategaeth Trafnidiaeth Integredig

    - anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol

    - yn gydnaws ag egwyddor cynaliadwyedd.

3. Trafnidiaeth Gyhoeddus

    - gwella

    - cyd-drefnu

    - hygyrchedd

    - hyrwyddo

    - trosglwyddo pobl a nwyddau.

Cyflwyniad gan Justin Cooper ar ran CLlLC

NODIADAU AR GYFER SESIWN PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH, CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU – 23AIN MAI 2001 – NODYN GAN JC I CLlLC

Bydd fy nghyfraniad ffurfiol yn canolbwyntio ar faterion cyflenwi gwasanaethau yn ne-ddwyrain Cymru. Byddaf yn gwneud y pwyntiau canlynol:

1) Mae'r ardal yn unigryw yng Nghymru am fod poblogaeth mor fawr (½ poblogaeth Cymru) wedi ei chywasgu mewn ardal mor fach (15% o arwynebedd tir Cymru). Mae dwysedd y boblogaeth rhyw 6 gwaith yn fwy nag yng ngweddill Cymru.

2) Rhaid darparu'r hyn sy'n gweddu i'r sefyllfa. Nid yw'r hyn sy'n briodol yn ne-ddwyrain Cymru yn briodol mewn mannau eraill ac i'r gwrthwyneb. Mae'r problemau a'r cyfleoedd yn wahanol.

3) Mae SWIFT eisoes wedi sefydlu record dda o ran gwireddu addewidion. Byddaf yn sôn am weithfeydd adnewyddu Bro Taf (cyn cyfnod SWIFT), Bro Morgannwg, Heol y Frenhines, gwelliannau o ran cyflymdra llinellau a signalau yn y Cymoedd, Cyfnewidfa Caerffili a'r prosiect

Cerdyn Clyfar. Mae TIGER yn gweithio ar ei Bartneriaeth Ansawdd gyntaf. Mae'n amheus gennyf a oes unrhyw PTE wedi cyflawni cymaint dros y 5 mlynedd diwethaf. (Rwy'n credu i mi wneud y pwynt olaf hwn ond nid wyf yn siwr a wneuthum.)

4) Byddaf yn sôn am farn y gweithredwyr a'r ffaith bod yn well ganddynt ddelio â SWIFT.

5) Mae SWIFT a TIGER ill dau yn siarad â Fforwm Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru er mwyn dod â'r 3 grwp o dan un pennawd. Yr ydym yn cydnabod y problemau sydd gennym yn cefnogi'r consortia. Dywedwyd wrth swyddogion am adrodd yn ôl i'r aelodau gydag atebion a allai weithio.

6) Yn gyffredinol, mae aelodau Fforwm Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yn cydnabod yr angen i glymu eu hunain i ymrwymiadau hirdymor ar faterion trawsffiniol. Mae hyn i bob diben yn golygu pob trafnidiaeth gyhoeddus fwy neu lai ac unrhyw ffordd uwchlaw'r rhwydwaith ffyrdd lleol.

7) Byddaf yn cyfeirio at y pwer i ddyfarnu grantiau sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru eisoes a'r ffordd y mae'n dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn y maes. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwer caniatáu sylweddol drosom yn barod a dylem dynnu sylw at hynny.

8) Mae ein haelodau am gael ACau ar y consortia rhanbarthol. Mae'r drws yn agored iddynt.

9) Mae gennym ddiddordeb yng nghynigion Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau i adolygu Adran 16 Deddf Llywodraeth Leol 1999 i'w gwneud yn fwy effeithiol o ran denu mwy o weithio drwy bartneriaeth.

10. Gyda PTE fe gewch fysiau, bysiau, bysiau (a threnau os ydych yn gyfoethog iawn). Gyda'r awdurdod lleol yn arwain fe gewch fysiau, trafnidiaeth ysgol, trafnidiaeth gymunedol, cynghreiriau iechyd, rheolaeth gynllunio, datblygu economaidd, yr Awdurdod Datblygu ayb. Fe gewch atebion priodol na chyfyngir arnynt gan swyddogaeth un corff. Ceir atebion yr un mor effeithiol, ond gwahanol, mewn ardaloedd trefol. Mae PTE fel un gôt o baent sglein – yn ddeniadol ar yr wyneb ond nid yw'n briodol yn y rhan fwyaf o amgylchiadau ac mae'n gostus iawn yn y tymor hir.